Cefnogi cyrchu dur mewn prosiectau adeiladu a seilwaith mawr yng Nghymru - Nodyn Cyngor Caffael (PAN)

Dyddiad: Ionawr 2018

Rhif fersiwn: f1

Cynnwys

1. Pwyntiau i'w nodi – gofalwch eich bod yn darllen yr adran hon yn gyntaf.
2. Materion sy'n cael sylw
3. Lledaenu a Chwmpas
4. Cefndir
5. Caffael dur yn y cylch caffael
   - 5.1 Cynllunio cyn caffael
   - 5.2 Nodi'r galw am ddur yn y dyfodol
   - 5.3 Tryloywder y gadwyn gyflenwi a hysbysebu cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi
   - 5.4 Sut mae rhagnodi a chaffael dur
   - 5.5 Y cam dewis cyflenwyr
     - Gwrth-ddympio
     - Cydymffurfiaeth gymdeithasol, llafur ac amgylcheddol
     - Iechyd a Diogelwch
   - 5.6 Camau gweithredu ar yr ochr cyflenwi
6. Cymorth
   - 6.1 Briff i gyflenwyr
   - 6.2 Briff i brynwyr
7. Cydnabyddiaeth

Atodiad A Argymhellion adroddiad 'Caffael Cyhoeddus o Ddur'
Atodiad B Amod Contract Enghreifftiol
- Rhwymedigaeth i hysbysebu cyfleoedd cadwyn gyflenwi

Atodiad C Cwestiynau Cyn Cymhwyso / Cam Dewis
- Gwrth-ddympio (dur a chynhyrchion dur)
- Iechyd a Diogelwch
- Cydymffurfiaeth â chyfraith gymdeithasol, llafur ac amgylcheddol

1. **Pwyntiau i'w nodi – gofalwch eich bod chi'n darllen yr adran hon gyntaf**.

- *Nid cyngor cyfreithiol yw'r wybodaeth yn y ddogfen hon ac ni fwriedir iddi gynnwys pob un dim – dylai partïon sy'n rhan o gontract gael eu cyngor annibynnol eu hunain fel sy'n briodol. Nodwch hefyd fod y gyfraith yn newid drwy'r amser a dylid cael cyngor ar achosion unigol. Mae'r ddogfen hon yn adlewyrchu'r sefyllfa fel ag yr oedd ym mis Ebrill 2017.*

- *Mae'r Nodyn Cyngor Caffael (PAN) yn adeiladu ar Ddatganiad Polisi Caffael Cymru a'r wybodaeth yn y Canllaw Cynllunio Caffael, ac yn cyd-fynd â'r dogfennau hyn hefyd. Maent ar gael yn http://ccc.llyw.cymru. Mae'r nodyn felly yn tybio bod y darllenwr yn gwybod rhywfaint am gaffael cyhoeddus.*

2. **Materion sy'n cael sylw**

Mae'r PAN hwn yn cynorthwyo sector cyhoeddus Cymru i ymateb i argymhellion 3 i 7 yn nogfen Llywodraeth Cymru, 'Caffael Cyhoeddus o Ddur - Adroddiad ar Ofynion Dur Sector Cyhoeddus Cymru yn y Dyfodol a Chapasiti a Gallu'r Sector Dur (2016).

3. **Lledaenu a Chwmpas**

Mae'r PAN hwn yn uniongyrchol berthnasol i bob awdurdod contractio os yw ei holl swyddogaethau, neu'r rhan fwyaf ohonynt, yn swyddogaethau sydd wedi'u datganoli i Gymru, a bydd yn berthnasol i unrhyw brosiect caffael mawr ar ôl cyhoeddi'r Nodyn hwn lle mae dur yn 'elfen hanfodol*'.

Nid oes gwerth penodol ar gyfer yr hyn sy'n cyfrif fel prosiect caffael mawr – bydd hyn yn amrywio o un awdurdod contractio i'r llall. Felly, yr awdurdodau contractio sydd i benderfynu pa rai o'u caffaeliadau sy'n brosiectau 'mawr'. Gall prosiectau mawr lle mae dur yn debygol o fod yn elfen hanfodol. Gallai prosiectau mawr, lle mae dur yn debygol o fod yn elfen hanfodol, gynnwys y canlynol ond heb gael eu cyfyngu iddynt:

- Seilwaith – fel rheilffyrdd a ffyrdd;
- Adeiladu – fel adeiladu neu adnewyddu carchardai, ysbytai, prifysgolion, tai, canolfannau cymunedol, pontydd ac ysgolion; ac
- Amddiffynfeydd llifogydd.

Dylid lledaenu'r PAN (er gwybodaeth) o fewn eich sefydliad, gan dynnu sylw'r rheini mewn rôl rheoli caffael neu gontractio ato'n benodol.

* Ystyrir mai *'elfen hanfodol'* yw cynnyrch (cynhyrchion) dur strwythurol fel fframiau dur; bariau atgyfnerthu.

4. Cefndir

Mae diwydiant dur Prydain yn cyflogi tua 20,000 o bobl (Siarter Dur Prydeinig Cynaliadwy) ac mae hefyd yn cefnogi busnesau a gweithwyr cyflogedig domestig yn y gadwyn gyflenwi. Mae heriau diweddar yn y diwydiant dur wedi tanlinellu pwysigrwydd strategol y sector i Gymru fel cyflogwr a chyflenwr cynhyrchion dur o bwys. Yn sgil hyn mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Tasglu Dur, ac fe wnaeth elfen gaffael y tasglu gomisiynu'r adroddiad Caffael Cyhoeddus o Ddur yn 2016 i edrych ar y potensial ar gyfer ymyriadau drwy ddulliau caffael i gefnogi'r sector dur.

Roedd yr adroddiad yn gwneud cyfres o argymhellion sy'n cael sylw yn y PAN hwn ac mae manylion ym mharagraff 5 isod.

5. Caffael dur yn y cylch caffael

5.1 Cynllunio Cyn Caffael

Dylai awdurdod contractio sicrhau bod eu gweithdrefnau cynllunio cyn caffael yn cynnwys proses asesu ar gyfer pob prosiect adeiladu a seilwaith i bennu prosiectau caffael 'mawr' lle bydd dur yn elfen hanfodol e.e. fframiau dur strwythurol, a lle gall yr awdurdod contractio ddylanwadu ar sut mae'r elfen ddur yn cael ei chaffael.

5.2 Nodi'r galw am ddur yn y dyfodol

Dylai Awdurdodau Contractio hefyd gyhoeddi, a diweddaru'n rheolaidd, restr o brosiectau 'mawr' cymaint ymlaen llaw ag sy'n bosibl er mwyn ysgogi'r farchnad.

Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu diweddariadau dilynol i'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i nodi cyfleoedd i ddiweddaru'r Adroddiad Gofynion Dur, a gyhoeddwyd gyntaf fel Atodiad 1 yr Adroddiad Caffael Cyhoeddus o Ddur ym mis Medi 2016.

Mae cadw rhestr o'r gofynion dur tebygol yn cefnogi dull strategol o reoli marchnadoedd cyflenwi.

Mae cael rhybudd ymlaen llaw o raglenni neu brosiectau unigol perthnasol yn golygu bod y sector dur yn mewn gwell sefyllfa i baratoi ar gyfer anghenion y dyfodol a'u diwallu drwy sicrhau bod y galluoedd cywir ar gael. Yn ogystal, gall y sector dur helpu i sicrhau canlyniadau gwell i brosiectau drwy gyfathrebu cynnar a nodi potensial atebion arloesol.

Ar ôl nodi prosiectau o'r fath, dylai awdurdodau contractio yng Nghymru;

- Sicrhau ymgysylltiad 'cwrdd â'r prynwr' cynnar gyda'r diwydiant i drafod gofynion dur. Gall cyrff masnach fel UK Steel roi cyngor ar sut i ymgysylltu'n effeithiol â'r sector domestig; gweler hefyd

gyfeiriadyr UK Steel o aelodau a chynhyrchion yn https://www.eef.org.uk/uk-steel/uk-steel-members

- Ystyried opsiynau dylunio a'u goblygiadau ar gyfer y gofynion dur a nodi'r cynhyrchion dur penodol a faint ohonynt fydd eu hangen yn erbyn y potensial i gaffael y rhain o fewn y DU neu Ewrop (Gweler adran 5.4 Sut gellir pennu a chaffael dur); ac
- Ystyried sut a phryd fydd mewnbynnau dur yn cael eu caffael drwy'r gadwyn gyflenwi.

5.3 Tryloywder y gadwyn gyflenwi a hysbysebu cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi

Dylai awdurdodau contractio yng Nghymru;

a) Sicrhau bod contractwyr Haen 1, yn eu tendr ar gyfer y prosiect cyfan, yn cynnwys cynlluniau ar gyfer y gadwyn gyflenwi sy'n nodi sut a chan ba gyflenwr y bydd dur yn cael ei gyrchu; os yw'r manylion hynny'n hysbys; a,
b) Cynnwys amod yn y contract i sicrhau bod y contractwr Haen 1 a'i isgontractwyr yn hysbysebu'n agored drwy gwerthwchigymru.llyw.cymru unrhyw gyfleoedd sy'n weddill yn y gadwyn gyflenwi i ddarparu dur (h.y. lle nad oes trefniadau contract wedi'u cytuno erbyn dyddiad dyfarnu'r prif gontract).

Mae enghraifft o gymal contract wedi'i chynnwys yn Atodiad B.

Lle bo'n briodol, ac yn enwedig lle gallai fod gofynion is-gontract parhaus am gynhyrchion dur ar wahanol gamau o brosiect, efallai y bydd gofyn i gontractwyr Haen 1 gofrestru ar y Cyfleuster Hysbysiad Is-gontract yn GwerthwchiGymru.llyw.cymru sydd â'r nod o alluogi contractwyr Haen 1 ar gontractau cyhoeddus i hysbysebu eu cyfleoedd is-gontract ar y porth GwerthwchiGymru. Bydd hyn yn galluogi cyflenwyr dur sydd wedi cofrestru ar gwerthwchigymru i gael negeseuon e-bost awtomatig yn eu hysbysu am gyfleoedd is-gontract a allai fod o ddiddordeb iddynt.
I gofrestru, cysylltwch â desg gymorth GwerthwchiGymru drwy wefan GwerthwchiGymru.llyw.cymru. Mae UK Steel wedi codi ymwybyddiaeth yn y sector dur o fanteision cofrestru ar gwerthwchigymru.llyw.cymru.

5.4 Sut mae rhagnodi a chaffael dur

Rhagnodi

Anogir awdurdodau contractio yng Nghymru i ystyried rhagnodi Safon y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE), BES 6001 *Responsible Sourcing of Construction Products* neu gyfwerth wrth gaffael ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys elfen ddur 'fawr'. Mae safon BES 6001 yn cwmpasu

ystod o gynhyrchion sylfaenol adeiladu, yn cynnwys bar atgyfnerthu dur carbon.

Mae achrediad BES 6001 yn cael ei asesu a'i ardystio gan drydydd parti, ac mae'n rhoi ffordd ddefnyddiol i awdurdodau contractio'r sector cyhoeddus wirio a chael sicrwydd bod deunyddiau cyfansoddiadol cynhyrchion sy'n dod o dan y safon wedi'u cyrchu'n gyfrifol. Mae'r safon yn disgrifio fframwaith ar gyfer llywodraethu sefydliadol, rheoli'r gadwyn gyflenwi ac agweddau amgylcheddol a chymdeithasol y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau bod cynhyrchion adeiladu'n cael eu cyrchu'n gyfrifol ac felly mae'n galluogi gweithgynhyrchwyr i brofi bod system effeithiol yn bodoli i sicrhau cyrchu cyfrifol.

Caffael

Prosiectau adeiladu neu seilwaith yw mwyafrif llethol y caffaeliadau mawr sy'n cynnwys elfen ddur hanfodol. Mae'r mathau hyn o brosiectau caffael yn gofyn am gynllunio hirdymor felly os nad yw'r cadwyni cyflenwi yn cael eu hystyried nes y cam tendro a dyfarnu contract, mae llai o lawer o gyfleoedd i ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch y gadwyn gyflenwi, yn enwedig lle mae cynhyrchion dur strwythurol dan sylw gan y bydd angen y rhain yn y camau cynnar. Mae'r Adroddiad Caffael Cyhoeddus o Ddur yn nodweddu strategaethau caffael mewn prosiectau adeiladu a seilwaith fel rhai sydd naill ai'n dilyn dull 'traddodiadol' neu ddull 'cydweithredol'. Gall y dewis o ddull gael effaith sylweddol ar allu cleientiaid sector cyhoeddus i ystyried a chynllunio ar gyfer cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi dur.

Dulliau caffael 'traddodiadol' yw prosiectau sydd naill ai'n gynhyrchion 'oddi ar y silff' safonol sydd wedi'u dylunio ymlaen llaw lle nad oes gan y gadwyn gyflenwi fawr iawn neu ddim mewnbwn yn y dyluniad, neu lle mae gofyn i'r contractwr gynnig pris gosod am ddylunio ac adeiladu'r cynllun. O ganlyniad, nid oes gan gleientiaid sector cyhoeddus fawr iawn o fanylion, na dylanwad, ynghylch y partneriaid cadwyn gyflenwi a fydd yn cael eu defnyddio ar y prosiect ac ychydig iawn o gyfle i ddylanwadu ar y dyluniad, ac eithrio drwy delerau ac amodau'r contract.

Mae'n bosibl y byd cleientiaid y sector cyhoeddus yn gyndyn o ddefnyddio telerau ac amodau i enwebu cyflenwyr neu ddiwygio'r dyluniad i ragnodi deunyddiau, cynhyrchion neu safonau uwch gan fod hyn yn cael ei weld fel trosglwyddo'r risg i'r cleient.

Fodd bynnag, drwy beidio â phennu telerau ac amodau o'r fath, gall cleientiaid y sector cyhoeddus fod yn agored i'r risg bod cynhyrchion yn cael eu cyfnewid am rai o safon is neu gyfnewid isgontractwyr gan y prif gontractwr.

O safbwynt contractwr, ar ôl tendro ar sail cynnyrch 'oddi ar y silff' safonol sydd wedi'i ddylunio o flaen llaw neu bris gosod, mae'n bosibl

iawn y byddan nhw'n llai parod neu abl i ystyried newidiadau i'r gadwyn gyflenwi neu weithio i safonau a gyflwynir gan y cleient a allai arwain at gostau uwch nad yw cleientiaid yn barod neu'n gallu eu hariannu o bosibl.

Mae'r atebion i'r problemau hyn wedi'u canfod drwy reoli contractau'n agos a pherthynas fwy cydweithredol â chyflenwyr a strategaethau rheoli mwy cydweithredol y mae cyrff sector cyhoeddus Cymru yn cael eu hannog i'w mabwysiadu.

Gall dulliau caffael 'cydweithredol' sy'n cael eu rheoli gan dimau integredig o gleientiaid, dylunwyr, rheolwyr costau, contractwyr a phartneriaid allweddol yn y gadwyn gyflenwi wneud pob agwedd ar y dyluniad yn fwy tryloyw a sicrhau bod modd nodi cyfleoedd a gweithredu yn eu cylch gydol y broses. Gall hyn wella ansawdd y cynnyrch gorffenedig a chyflawni ystod o amcanion polisi cymdeithasol fel caffael cynaliadwy / moesegol, taliadau teg ac amserol a pholisi Buddiannau Cymunedol ac yn benodol yng nghyd-destun y PAN hwn, gyfleoedd i weithgynhyrchwyr a chyflenwyr dur yn y DU.

5.5 Y cam dewis cyflenwyr

Mae'r cam Dewis Cyflenwyr yn gyfle i ddefnyddio cwestiynau cyn cymhwyso i fynd i'r afael â phroblem dympio dur a diffyg cydymffurfiaeth â safonau derbyniol o iechyd, diogelwch a lles a safonau amgylcheddol.

Mae gan Atodiad C i'r Nodyn hwn dri chwestiwn penodol i'w defnyddio yn y cam Dewis Cyflenwyr sy'n ymdrin â chwestiynau penodol sydd wedi'u cynnwys i brynwyr eu hystyried wrth gaffael prosiectau sydd ag elfen ddur hanfodol. Mae'r cwestiynau'n rhoi sylw i

- 'Gwrth-ddympio';
- cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cymdeithasol, llafur ac amgylcheddol; a
- gofynion iechyd a diogelwch yng nghadwyn gyflenwi'r prif gynigwyr sy'n berthnasol i ddeddfwriaeth y wlad maent wedi'u lleoli ynddi.

Wrth benderfynu a ddylid gwahardd cynigydd am fethu â bodloni unrhyw un o'r gofynion a nodir yn y cwestiynau yn Atodiad C ai peidio, roedd yr awdurdod contractio yn arfer datgan y 'byddai' yn gwahardd, er mwyn cael gwared ar yr elfen o ddisgresiwn ac felly gwahardd y cynigydd rhag ymchwilio i ba sail y cafodd y disgresiwn ei arfer a herio hynny. Fodd bynnag, mae pwysigrwydd cynyddol cymesuredd (sydd bellach yn cael ei gydnabod yn Rheoliad 18(1) Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 i fod yn llawn mor bwysig â chydraddoldeb, dim gwahaniaethu a thryloywder) a'r posibilrwydd o hunanlanhau ("self-cleaning" a gydnabyddir yn Rheoliad 57(13) i (17), yn golygu bod

angen i benderfyniadau i wahardd gael eu gwneud yn gymesur, ac ar sail tystiolaeth (ac eithrio lle mae'r penderfyniad i wahardd yn orfodol).

Felly mae'r nodiadau sy'n cyd-fynd â phob cwestiwn yn nodi'r canlyniadau posibl fel "gall" yn hytrach na "rhaid" gwahardd. Fodd bynnag, mae natur ddifrifol effaith torri deddfwriaeth gwrth-ddympio ar gystadleuaeth yn golygu y byddai eithrio'n briodol ym mwyafrif yr achosion. Mewn achosion o dorri cyfraith gymdeithasol, llafur ac amgylcheddol, byddai gwahardd yn orfodol (Rheoliad 69(5)) pe bai'r pris cynnig yn afreolaidd o isel oherwydd yr arbedion a wneir drwy beidio â chydymffurfio ag unrhyw gyfraith berthnasol o'r fath. Mewn achosion eraill, byddai gwahardd yn ddewisol.

Mae'r cwestiynau hyn yn dilyn fformat SQuID gan ofyn am ateb cadarnhaol/negyddol syml, heb (gan amlaf) ofyn am wybodaeth ategol. Felly mae gofyn i'r cynigwyr a'u cadwyni cyflenwi "hunan-ardystio". Os daw'n amlwg maes o law bod yr atebion a roddwyd yn anghywir, gallai'r cynigydd gael ei ddiarddel neu (os oedd y contract wedi'i ddyfarnu eisoes) gallai'r contract gael ei ganslo heb iawndal.

Er mwyn sicrhau bod modd canslo'r contract, bydd angen cynnwys darpariaethau yn y contract i alluogi terfynu'r contract heb iawndal am y rhesymau hyn. Hefyd, fel opsiwn llai eithafol, gallai awdurdodau contractio mewnosod cymal contract am iawndal penodedig (e.e. 1% o gyfanswm gwerth y contract) yn hytrach na therfynu'r contract. Ers penderfyniad y Goruchaf Lys yn Cavendish Square Holding BV v Talal El Makdessi a ParkingEye Ltd v Beavis [2015] UKSC 67, bellach nid oes angen dangos bod symiau o'r fath yn rhagamcangyfrif gwirioneddol o golled. Mae'n ddigon dangos bod gan y parti sy'n dibynnu arnynt fuddiant gwirioneddol a chyfreithlon mewn dylanwadu ar ymddygiad y parti a fydd yn gorfod talu. Felly, gyda geiriad priodol, gellid gosod cosb drwy'r contract i gymell contractwyr i sicrhau nad yw'r dur a brynant yn torri rheolau gwrth-ddympio.

Gwrth-ddympio

Dylai awdurdodau contractio sicrhau bod cyfrifiadau pris neu gost yn seiliedig ar asesiad o gost cylch bywyd ac nid ar y pris prynu isaf. Mae Rheoliad 68 *Costio cylch bywyd* (*Costio cylch bywyd)* yn caniatáu ystyried nifer o gostau. Yn fwyaf perthnasol i gaffael dur mae costau sy'n ymwneud â chael a chostau'n ymwneud ag allanoldebau sy'n gysylltiedig â'r cynnych, gwasanaeth neu waith yn ystod ei gylch bywyd, ar yr amod bod modd pennu a gwirio eu gwerth ariannol. Gall 'costau allanoldebau' gynnwys costau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac allyriadau llygryddion eraill a chostau lliniaru newid hinsawdd eraill.

Cydnabyddir y gallai fod yn anodd i gontractwyr gyflawni unrhyw wiriadau ystyrlon yn erbyn cytundeb gwrth-gystadleuol gan eu bod yn annhebygol o fod yn hawdd i'w darganfod. Fodd bynnag, os yw contractwyr yn gwybod y gallai eu contractau gael eu terfynu neu y gallent gael eu cosbi, gallai hyn eu hannog i ofyn rhagor o gwestiynau pan mae pris dur i weld yn anarferol o isel yn y wlad gynhyrchu.

Mae Rheoliad 69 ‘Tendrau afreolaidd o isel’ (*‘Abnormally low tenders’*) yn galluogi awdurdodau contractio i ofyn i bartïon sy’n tendro egluro’r pris neu’r costau a gynigir yn y tendr lle mae tendrau i weld yn afreolaidd o isel mewn perthynas â’r gwaith, cyflenwadau neu wasanaethau. Mae angen i brynwyr fod yn wyliadwrus a mynd ati’n briodol i gwestiynau cynigion sy’n anghyson iawn â phrisiau neu gostau cynigion eraill. Mae’r rheoliad yn cynnig nifer o resymau pam y gallai cynnig sy’n ymddangos yn afreolaidd o isel fod yn gyfiawn.

Ni all awdurdodau contractio wrthod y tendr oni bai nad yw’r dystiolaeth a gyflwynir yn rhoi cyfrif boddhaol am y pris neu gostau isel a gynigir, gan ystyried y rhesymau y cyfeirir atynt ym mharagraff 2 y Rheoliad.

Er bod pris yn bwysig, dylid cydnabod bod prisiau afreolaidd o isel yn gallu rhoi darparwyr domestig o dan anfantais annheg, a gallai hyn arwain at golli swyddi ac effaith economaidd a chymdeithasol sylweddol ar y cymunedau dan sylw.

Cydymffurfiaeth gymdeithasol, llafur ac amgylcheddol

Mae’r cwestiynau sy’n ymwneud â ‘chydymffurfiaeth gymdeithasol, llafur ac amgylcheddol’ yn ymwneud yn bennaf â chadwyn gyflenwi’r cynigydd. Mae natur cynhyrchu a gweithgynhyrchu dur o’r fath fel bod cydymffurfiaeth â chyfraith gymdeithasol, lafur ac amgylcheddol y tu allan i’r UE yn broblem sylweddol, ac felly gallai fod yn ffordd ddefnyddiol o wahanredu wrth ddewis cyflenwyr.

Mae Rheoliad 56(2) yn galluogi awdurdodau contractio i wrthod dyfarnu contract i’r tendr mwyaf manteisiol yn economaidd lle nad yw’r tendr yn cydymffurfio â rhwymedigaethau cymwys ym meysydd cyfraith amgylcheddol, gymdeithasol a llafur sydd wedi’i sefydlu gan gyfraith yr UE, cyfraith genedlaethol, cydgytundebau neu gan ddarpariaethau cyfraith amgylcheddol, gymdeithasol a llafur ryngwladol a restrir yn Atodiad X i’r Gyfarwyddeb Gyhoeddus fel y’i diwygir o bryd i’w gilydd (mae’r rhain wedi’u rhestru fel rhan o destun y Cwestiwn ar gyfer Cydymffurfiaeth â chyfraith gymdeithasol, llafur ac amgylcheddol yn Atodiad C). Mae Rheoliad 57(8)(a) yn galluogi awdurdodau contractio i wahardd cynigydd am yr un rheswm.

Iechyd a Diogelwch

Mae natur cynhyrchu a gweithgynhyrchu dur o’r fath fel bod cydymffurfiaeth â chyfraith iechyd a diogelwch y tu allan i’r UE yn broblem sylweddol, ac felly gallai fod yn ffordd ddefnyddiol o wahanredu wrth ddewis cyflenwyr.
Mae’r cwestiynau Iechyd a Diogelwch yn Atodiad C yn debyg i’r rheini yn y cwestiwn SQuID a bennwyd ynghylch isgontractwyr, ond maent wedi’u hysgrifennu i adlewyrchu cadwyn gyflenwi fwy “rhyngwladol”. Felly, mewn contractau sy’n cynnwys cynhyrchu dur, dylent ddisodli’r cwestiynau SQuID safonol ar gyfer isgontractwyr tra dylai’r rheini sy’n ymwneud â’r cynigydd barhau'r un fath.

5.6 Camau gweithredu ar yr ochr gyflenwi

Er mwyn helpu prynwyr y sector cyhoeddus i asesu'r farchnad ar gyfer cyflenwyr a gweithgynhyrchwyr dur a gallu eu hysbysu am gyfleoedd contract, bydd cyflenwyr a gweithgynhyrchwyr yn cael eu hannog i gofrestru gyda GwerthwchiGymru a chreu proffil cyflenwr.

Bydd cyflenwyr a gweithgynhyrchwyr dur yn cael eu hannog hefyd i ddefnyddio GwerthwchiGymru i weld contractau a'r prif gontractwyr y dyfarnwyd y contractau iddynt fel y gallant fynd ati ar eu liwt eu hunain i gysylltu â'r contractwyr ynghylch cyfleoedd cadwyn gyflenwi posibl.

6. Cymorth

6.1 Briff i gyflenwyr

Mae Argymhelliad 2 yr Adroddiad Caffael Cyhoeddus o Ddur yn dweud y dylai cyfarfodydd briffio y diwydiant dur a chyflenwyr gael eu gwneud yn orfodol ar gyfer prosiectau seilwaith sy'n werth mwy nag £1 filiwn, ymhell cyn caffael prosiectau, er mwyn rhoi rhybudd cynnar i'r diwydiant o ofynion posibl. Bydd y cyfarfodydd briffio'n rhoi sylw i:

- Fanylion penodol gofynion dur y prosiect dan sylw;
- Y rhestr gyfredol o brosiectau sydd ar droed yn y gofynion dur ar gyfer y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru; ac
- Y camau y mae'n ofynnol i gyflenwyr eu cymryd fel y nodir yn '5.5 Camau'r ochr gyflenwi' uchod i sicrhau eu bod yn amlwg i brynwyr.

6.2 Briffi i brynwyr

Mae Argymhelliad 4 yr Adroddiad Caffael Cyhoeddus o Ddur yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddatblygu gweithdai ar gyfer caffaelwyr cyhoeddus. Bydd y gweithdai hyn yn cwmpasu:

- Trosolwg o'r diwydiant yng Nghymru a'r DU i gynyddu gwybodaeth am y diwydiant a hyrwyddo defnyddiau a rhinweddau dur y DU i brif gontractwyr a chleientiaid;
- Polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â dur, yn cynnwys manylion rhaglenni sy'n gosod amodau cyllido yn ymwneud ag ymgysylltu â'r sector dur;
- Sut dylai dur gael ei ragnodi a'i gaffael; a
- Rôl y 'prynwr' wrth sicrhau bod y sesiynau briffio gorfodol gyda'r diwydiant dur a chyflenwyr yn cael eu cynnal ar gam priodol ar gyfer y prosiectau seilwaith a reolant.

7. Cydnabyddiaeth

Cyfeiriwyd at y canlynol wrth baratoi'r PAN hwn;

‘Caffael Cyhoeddus o Ddur – Adroddiad ar Ofynion Dur Sector Cyhoeddus Cymru yn y Dyfodol a Chapasiti a Gallu’r Sector Dur’ (Llywodraeth Cymru 2016)

Nodyn Polisi Caffael - Procuring Steel in Major Projects
Nodyn Gweithredu 16/15 30 Hydref 2015
(Gwasanaeth Masnachol y Goron, 2015)

Procuring Steel in Major Projects – revised guidance.
Nodyn Gweithredu 11/16 13 Rhagfyr 2016
(Gwasanaeth Masnachol y Goron, 2016)

The Charter for Sustainable British Steel
(UK Steel 2015)

Atodiad A
Argymhellion ‘Caffael Cyhoeddus o Ddur – Adroddiad ar Ofynion Dur Sector Cyhoeddus Cymru yn y Dyfodol a Chapasiti a Gallu’r Sector Dur’ (Llywodraeth Cymru 2016).

1. Dylid cyhoeddi’r gofynion dur ar gyfer Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (a restrir yn Atodiad 1 a’u diweddaru o leiaf unwaith y flwyddyn, gan ddefnyddio’r wybodaeth a gynhwysir yn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

2. Dylid sicrhau bod cyfarfodydd briffio y diwydiant dur a chyflenwyr, gyda chefnogaeth gan Busnes Cymru yn cael eu gwneud yn orfodol ar gyfer prosiectau seilwaith sy’n werth mwy nag £1 filiwn, ymhell cyn caffael prosiectau, er mwyn rhoi rhybudd cynnar i’r diwydiant o ofynion posibl.

3. Dylid annog cyflenwyr a gweithgynhyrchwyr y diwydiant dur sy’n ymwneud â phrosiectau’r sector cyhoeddus i gofrestru ar borth GwerthwchiGymru er mwyn
   a) cynyddu cyfathrebu a chysylltiadau rhwng y sector cyhoeddus a’r diwydiant dur, yn enwedig fel y gellir cyhoeddi digwyddiadau cyflenwyr dur yn ddi-dor
   b) er mwyn i gyflenwyr a gwneuthurwyr dur allu olrhain y prif gontractwyr a ddyfarnwyd yn llwyddiannus
   c) er mwyn darparu dealltwriaeth well i gaffaelwyr (a’r llywodraeth) o’r cwmnïau sy’n cymryd rhan yn y diwydiant.

   Pan nad yw prif gontractwyr eisoes wedi cadarnhau eu bod yn bwriadu defnyddio cyflenwyr o Gymru neu’r DU ar gyfer unrhyw ofynion dur, dylai’r sector cyhoeddus ei gwneud yn ofynnol i’r contractwyr hysbysebu cyfleoedd is-gontractau ar gyfer y busnes hwn ar GwerthwchiGymru.

4. Dylai Llywodraeth Cymru, yn uniongyrchol neu drwy bartner cyflenwi, ddatblygu gweithdai ar gyfer caffaelwyr cyhoeddus ar sut y dylid rhagnodi a chaffael dur, ynghyd â throsolwg o’r diwydiant yng Nghymru a’r DU, er mwyn iddynt gael mwy o wybodaeth am y diwydiant.

5. Dylai Gwerth Cymru gyhoeddi canllawiau polisi i ategu’r broses o gyrchu dur mewn prosiectau adeiladu a seilwaith.

6. Dylai’r diwydiant dur hyrwyddo defnydd ac ansawdd dur y DU a’i yn uniongyrchol â phrif gontractwyr a chleientiaid. Wrth wneud hynny, bydd yn bwysig penderfynu ar yr hyn a ddiffinnir fel dur y DU

7. Dylid annog cleientiaid i ddefnyddio mwy o strategaethau caffael cydweithredol a all arwain at ymgysylltiad gwell â chyflenwyr dur allanol.

8. Dylid sicrhau bod Llywodraeth Cymru, trwy'r Tasglu Caffael, yn defnyddio'r data sydd ar gael i nodi a deall bylchau cyflenwi ym marchnadoedd dur y DU, gyda thrafodaeth barhaus â'r sector dur, er mwyn sefydlu sut y gellid manteisio ar y rhain.

ATODIAD B

Rhwymedigaeth i hysbysebu cyfleoedd cadwyn gyflenwi

Amod Contract Enghreifftiol

1. Bydd y cyflenwr yn sicrhau bod pob is-gontract, y mae'r cyflenwr yn bwriadu caffael yn dilyn dyddiad y contract hwn, ac nad yw'r cyflenwr, cyn dyddiad y contract hwn, eisoes wedi'i ddyfarnu i is-gontractiwr arbennig, yn:

   (a) Cael ei hysbysebu ar GwerthwchiGymru.llyw.cymru; ac

   (b) Yn cael ei ddyfarnu yn dilyn proses deg, dryloyw a chystadleuol sy'n gymesur i natur a gwerth yr is-gontract.

2. Rhaid i unrhyw is-gontract a ddyfernir gan y cyflenwr yn unol â Chymal 1 gynnwys darpariaethau addas i osod, rhwng partïon yr is-gontract:

   a) gofynion i'r un perwyl â'r rheini yng Nghymal 1; a

   b) gofyniad i'r is-gontractiwr gynnwys mewn unrhyw is-gontract y mae'n dyfarnu yn ei dro, ddarpariaethau addas i osod, fel sydd rhwng y partïon i'r is-gontract hwnnw, ofynion i'r un perwyl â'r rheini sy'n ofynnol o dan y Cymal 2 hwn.

3. At ddibenion Cymalau 1 a 2, mae "is-gontract" yn golygu contract rhwng dau gyflenwr neu fwy, unrhyw bellter o'r Awdurdod mewn cadwyn is-gontractio, sy'n cael ei wneud yn gyfan gwbl neu'n sylweddol at y diben o berfformio neu gyfrannu at berfformio'r cyfan neu unrhyw ran o'r contract hwn ac mae "is-gontractiwr" yn golygu unrhyw drydydd parti y mae (a) y cyflenwr yn mynd i is-gontract gydag ef; neu (b) y mae trydydd parti o dan (a) yn mynd i is-gontract gydag ef; neu weision neu asiantiaid y trydydd parti hwnnw.

Atodiad C

Cwestiynau Cyn Cymhwyso / Cam Dewis

Gwrth-ddympio (dur a chynhyrchion dur)

Testun y Cwestiwn	Ateb	Canllawiau
A ydych chi'n cymryd camau i sicrhau nad yw aelodau o'ch cadwyn gyflenwi yn gweithredu'n groes i ddeddfwriaeth gwrth-ddympio?	Ydym/Nac ydym	Gall y prynwr beidio â'ch dewis i dendro oni bai eich bod chi'n gallu dangos prosesau digonol ar gyfer sicrhau bod yr holl ddur a chynhyrchion dur a gyrchir gennych ar gyfer y contract hwn yn cydymffurfio â deddfwriaeth gwrth-ddympio. Nodir y ddeddfwriaeth yn RHEOLIAD Y CYNGOR (EC) Rhif 1225/2009 dyddiedig 30 Tachwedd 2009 ar amddiffyn rhag mewnforion wedi'u dympio o wledydd nad ydynt yn aelodau o'r Gymuned Ewropeaidd http://trade.ec.europa.eu/doclib/docs/2010/april/tradoc_146035.pdf. Dyma'r egwyddorion allweddol - • Ystyrir bod cynnyrch wedi'i ddympio os yw ei bris allforio i'r UE yn llai na phris cymaradwy ar gyfer yr un cynnyrch, yn ystod masnach arferol, fel y'i pennwyd ar gyfer y wlad sy'n allforio. • Bydd y pris cymaradwy yn seiliedig fel rheol ar y prisiau sy'n cael eu talu neu sy'n daladwy, yn ystod masnach arferol, gan gwsmeriaid annibynnol yn y wlad sy'n allforio. Os yw'n ymddangos nad yw amodau'r farchnad yn y wlad sy'n allforio yn caniatáu cymhariaeth briodol (er enghraifft, lle mae tystiolaeth o gynllwynio gyda chyflenwyr eraill neu gyrff llywodraeth i gadw prisiau'n artiffisial o isel) yna dylid defnyddio cost cynhyrchu yn ogystal ag elfen ar gyfer gorbenion ac elw. • Y pris allforio yw'r pris sy'n cael ei dalu neu sy'n daladwy am y cynnyrch pan mae'n cael ei werthu i'w allforio o'r wlad sy'n allforio i'r UE • Rhaid gwneud cymhariaeth deg rhwng y pris allforio a'r pris cymaradwy yn y wlad wreiddiol.

		Ystyr “aelodau o’ch cadwyn gyflenwi” yw cyflenwyr neu isgontractwyr ar unrhyw haen neu aelodau consortiwm neu bartneriaid neu unrhyw endid arall (yn cynnwys eich cwmni eich hun neu aelodau o grŵp eich cwmni) rydych yn bwriadu cyrchu dur ganddynt i gyflawni’r contract hwn.
Os i chi ateb "Ydym" i gwestiwn [Rhif] uchod, rhowch amlinelliad byr o’r camau rydych yn eu cymryd.	Testun, hyd at 300 gair	Gall y prynwr beidio â’ch dewis i dendro oni bai eich bod chi’n gallu dangos prosesau digonol ar gyfer sicrhau bod yr holl ddur a chynhyrchion dur a gyrchir gennych ar gyfer y contract hwn yn cydymffurfio â deddfwriaeth gwrth-ddympio. Er enghraifft, gallai’r camau y gallech eu cymryd gynnwys pennu’r pris cymaradwy yn y wlad sy’n allforio (fel ymchwil i’r farchnad, neu wirio costau cynhyrchu) a gwirio a yw hwn yn fwy na’r pris allforio i’r UE.
A ydych yn cymryd camau i sicrhau nad yw aelodau o’ch cadwyn gyflenwi yn gwneud cytundebau gyda gweithredwyr economaidd eraill gyda’r nod o ystumio cystadleuaeth yn groes i Reoliad 57(8)(d) o reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015?	Ydym/Nac ydym	Gall y prynwr beidio â’ch dewis i dendro oni bai eich bod chi’n gallu dangos prosesau digonol ar gyfer sicrhau nad yw aelodau o’ch cadwyn gyflenwi yn gwneud cytundebau gwrth-gystadleuol gyda chyflenwyr eraill, er enghraifft, gosod prisiau artiffisial o isel gydag allforwyr eraill, neu wneud trefniadau i gadw’r pris domestig yn artiffisial o isel i fynd o’r tu arall i’r rheolau.
Os i chi ateb "Ydym" i gwestiwn [Rhif] uchod, rhowch amlinelliad byr o’r camau rydych yn eu cymryd.	Testun, hyd at 300 gair	Gall y prynwr beidio â’ch dewis chi i dendro oni bai eich bod chi’n galllu dangos prosesau digonol ar gyfer sicrhau nad yw aelodau o’ch cadwyn gyflenwi yn gwneud cytundebau gwrth-gystadleuol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys gwneud ymholiadau ynghylch eu strwythur prisio yn erbyn cyflenwyr lleol eraill, gwneud ymchwil i’r farchnad i brisiau yn erbyn costau cynhyrchu a chyd-gynllwynio posibl rhwng cyflenwyr, a rhoi’r gorau i ddefnyddio cyflenwyr lle mae tystiolaeth gredadwy o gyd-gynllwynio neu ymddygiad gwrth-gystadleuol.
Yn y tair blynedd diwethaf, a ddyfarnwyd eich bod chi neu unrhyw aelod o’ch cadwyn gyflenwi wedi gweithredu’n	Do/Naddo	Mae cael eich dyfarnu i fod wedi gweithredu’n groes yn golygu bod penderfyniad wedi’i wneud gan lys, tribiwnlys neu awdurdod gweinyddol cymwys.

groes i'r ddeddfwriaeth gwrth-ddympio neu ddeddfwriaeth gymaradwy mewn unrhyw awdurdodaeth yn y byd?		
Os i chi ateb "Do" i gwestiwn [Rhif] uchod, rhowch fanylion cryno natur y canfyddiad ac unrhyw gosb a roddir, a'r camau rydych chi, neu'r aelod o'ch cadwyn gyflenwi, wedi'u cymryd i atal hyn rhag digwydd eto.	Testun, hyd at 300 gair	Os dyfarnwyd eich bod chi neu aelod o'ch cadwyn gyflenwi wedi gweithredu'n groes i ddeddfwriaeth gwrth-ddympio, ni all y prynwr eich dewis chi i dendro oni bai eich bod chi'n gallu darparu tystiolaeth gadarn a chredadwy bod mesurau wedi'u cymryd i atal hyn rhag digwydd eto.

Nodyn: os daw'n amlwg bod unrhyw un o'ch atebion i'r cwestiynau uchod yn anghywir neu'n gamarweiniol yna, heb ymrwymiad i unrhyw hawl neu rwymedi arall sydd gan y prynwr, gall y prynwr benderfynu gwahardd eich tendr neu, os yw'n contract wedi'i ddyfarnu, canslo'r contract heb iawndal neu osod cosbau yn unol â'r darpariaethau yn y contract."

Iechyd a Diogelwch

Testun y Cwestiwn	Ateb	Canllawiau
A ydych chi'n cymryd camau i sicrhau bod gan bob aelod o'ch cadwyn gyflenwi bolisïau iechyd a diogelwch priodol ar waith sy'n ymdrin â'r canlynol o leiaf - • Datganiad Polisi – gyda llofnod a dyddiad • y Sefydliad a Chyfrifoldebau – sut mae gofynion Iechyd a Diogelwch yn cael eu gweithredu; ac • y Trefniadau – safonau a gweithdrefnau sy'n cael eu mabwysiadu'n ymarferol, a bod y polisi'n cael ei adolygu bob 2 flynedd o leiaf?	Ydym/Nac ydym	Gall y prynwr beidio â'ch dewis i dendro oni bai eich bod chi'n gallu dangos prosesau digonol ar gyfer sicrhau bod gan aelodau o'ch cadwyn gyflenwi (fel y'u diffinnir uchod) bolisïau iechyd a diogelwch priodol ar waith a'u bod yn eu hadolygu a'u diweddaru.
A ydych chi'n cymryd camau i sicrhau bod pob aelod o'ch cadwyn gyflenwi yn darparu hyfforddiant iechyd a diogelwch priodol, yn enwedig ar gyfer gweithwyr sy'n cyflawni tasgau a allai fod yn beryglus?	Ydym/Nac ydym	Gall y prynwr beidio â'ch dewis i dendro oni bai eich bod chi'n gallu dangos prosesau digonol ar gyfer sicrhau bod aelodau o'ch cadwyn gyflenwi yn darparu hyfforddiant iechyd a diogelwch priodol.
Os i chi ateb "Ydym" i gwestiynau [Rhif] a [Rhif] uchod, nodwch yn fyr y camau rydych chi'n eu cymryd i sicrhau bod polisïau iechyd a diogelwch priodol ar waith a bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu?	Testun, hyd at 300 gair	Gall y prynwr beidio â'ch dewis i dendro oni bai eich bod chi'n gallu dangos prosesau digonol ar gyfer sicrhau bod aelodau o'ch cadwyn gyflenwi yn darparu hyfforddiant iechyd a diogelwch priodol.

Yn y tair blynedd diwethaf, a ddyfarnwyd eich bod chi neu unrhyw aelod o'ch cadwyn gyflenwi wedi gweithredu'n groes i unrhyw ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch neu ddeddfwriaeth gymaradwy mewn unrhyw awdurdodaeth arall yn y byd, neu wedi cael rhybudd i ddiddymu neu wella materion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch?	Do/Naddo	Mae dyfarnu i fod wedi gweithredu'n groes yn golygu bod penderfyniad wedi'i wneud gan lys cymwys, tribiwnlys neu awdurdod gweinyddol. Ystyr cael rhybudd yw cael rhybudd gan awdurdod cymwys mewn **awdurdodaeth.**
Os i chi ateb "Do" i gwestiwn [Rhif] uchod, rhowch fanylion byr natur y dyfarniad neu rybudd ac unrhyw gosb a roddwyd, a'r camau rydych chi, neu'r aelod o'ch cadwyn cyflenwi, wedi'u cymryd i atal yr amgylchiadau a arweiniodd at y dyfarniad neu rybudd rhag codi eto.	Testun, hyd at 300 gair	Os dyfernir eich bod chi neu aelod o'ch cadwyn gyflenwi wedi gweithredu'n groes i unrhyw ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, neu wedi cael rhybudd mewn perthynas â deddfwriaeth o'r fath, ni all y prynwr eich dewis i dendro oni bai eich bod chi'n gallu darparu tystiolaeth gadarn a chredadwy bod mesurau wedi'u cymryd i atal hyn rhag digwydd eto.

Nodyn: os gwelir bod unrhyw un o'ch atebion i'r cwestiynau uchod yn anghywir neu'n gamarweiniol yna, heb ymrwymiad i unrhyw hawl neu rwymedi arall sydd gan y prynwr, gall y prynwr benderfynu gwahardd eich tendr neu, os yw'r contract wedi'i ddyfarnu, canslo'r contract heb iawndal neu osod cosbau yn unol â'r darpariaethau yn y contract."

Cydymffurfiaeth â chyfraith gymdeithasol, llafur ac amgylcheddol

Testun y Cwestiwn	Ateb	Canllawiau
A ydych chi'n cymryd camau i sicrhau bod aelodau o'ch cadwyn gyflenwi yn cydymffurfio â deddfwriaeth gymdeithasol, amgylcheddol a llafur gymwys yn y DU neu yn yr awdurdodaeth lle maent yn gweithredu, a'u bod yn cydymffurfio â'r safonau rhyngwladol canlynol yn y man lleiaf? • Confensiwn 87 ILO ar Ryddid i Ymgysylltu ac Amddiffyn yr Hawl i Drefnu; • Confensiwn 98 ILO ar yr Hawl i Drefnu a Chydfargeinio; • Confensiwn 29 ILO ar Lafur Gorfodol; • Confensiwn 105 ILO ar Ddiddymu Llafur Gorfodol; • Confensiwn 138 ILO ar	Ydw/Nac ydw	Gall y prynwr beidio â'ch dewis i dendro oni bai eich bod chi'n gallu dangos prosesau digonol ar gyfer sicrhau bod aelodau o'ch cadwyn gyflenwi (fel y'i diffinnir uchod) yn cydymffurfio â chyfraith gymdeithasol, amgylcheddol a llafur gymwys yn y DU, neu yn yr awdurdodaeth lle maent yn gweithredu. Sut bynnag, rhaid i aelodau'ch cadwyn gyflenwi gydymffurfio yn y man lleiaf gyda'r safonau rhyngwladol a nodir gyferbyn mewn perthynas â - • Rhaid i weithwyr a chyflogwyr (yn ddiwahaniaeth) fod yn rhydd i sefydlu ac ymuno â sefydliadau o'u dewis heb gael caniatâd o flaen llaw, ac i arfer eu hawliau i drefnu (Confensiwn 87 ILO) • Amddiffyn rhag gwahaniaethu gwrth-undebol (Confensiwn 98 ILO) • Peidio â defnyddio llafur gorfodol yn ei holl ffurfiau (Confensiwn 29 ILO), yn cynnwys fel gorfodaeth wleidyddol neu addysg, cosb neu wahaniaethu (Confensiwn 105 ILO) • Peidio â defnyddio llafur plant ac yn arbennig, rhaid i'r isafswm oedran ar gyfer unrhyw waith sy'n debygol o beri risg i iechyd a diogelwch fod yn 18 o leiaf (Confensiwn 138 ILO) • Peidio â gwahaniaethu ar sail hil, lliw, rhyw, crefydd, barn wleidyddol, tras cenedlaethol neu darddiad cymdeithasol, sy'n cael yr effaith o ddirymu neu amharu ar gyfle cyfartal neu driniaeth gyfartal mewn cyflogaeth neu alwedigaeth (Confensiwn 111 ILO) • Sicrhau tâl cyfartal i ddynion a menywod sy'n gwneud gwaith o'r un gwerth (Confensiwn 100 ILO) • Peidio â defnyddio'r ffurfiau gwaethaf o lafur plant, yn cynnwys – ○ pob ffurf ar gaethwasiaeth neu arferion tebyg i gaethwasiaeth, fel gwerthu a masnachu plant, caethiwed dyled a thaeogaeth a llafur gorfodol, yn cynnwys recriwtio plant yn orfodol i'w defnyddio mewn gwrthdaro arfog; ○ defnyddio, caffael neu gynnig plentyn ar gyfer puteindra, ar gyfer cynhyrchu pornograffi neu ar gyfer perfformiadau pornograffig;

Isafswm Oedran; • Confensiwn 111 ILO ar Wahaniaethu (Cyflogaeth a Galwedigaeth); • Confensiwn 100 ILO ar Gydnabyddiaeth Ariannol Gyfartal; • Confensiwn 182 ILO ar y Ffurfiau Gwaethaf o Lafur Plant; • Confensiwn Vienna Convention ar gyfer amddiffyn yr Haen Oson a'i Brotocol Montreal ar sylweddau sy'n dihysbyddu'r Haen Oson; • Confensiwn Basel ar Reoli Symudiadau Trawsffiniol Gwastraff Peryglus a'i Waredu (Confensiwn Basel); • Confensiwn Stockholm ar Lygryddion Organig Parhaol (Confensiwn POPs Stockholm); • Confensiwn ar y Weithdrefn Cydsyniad		○ defnyddio, caffael neu gynnig plentyn ar gyfer gweithgareddau anghyfreithlon, yn enwedig cynhyrchu a masnachu cyffuriau fel y'u diffinnir yn y cytundebau rhyngwladol perthnasol; a ○ gwaith sydd, wrth ei natur neu'r amgylchiadau y gwneir y gwaith danynt, yn debygol o niweidio iechyd, diogelwch neu foesau plant (Confensiwn 182 ILO) • Peidio â defnyddio sylweddau sy'n gyfrifol am ddisbyddu oson (Confensiwn Vienna a Phrotocol Montreal) • Triniaeth ddiogel yn amgylcheddol o wastraff gwenwynig ac osgoi cludo gwastraff peryglus i wledydd llai datblygedig (Confensiwn Basel) • Peidio â chynhyrchu na defnyddio llygryddion organig parhaol (Confensiwn Stockholm) • Gweithredu'n gyfrifol ac yn dryloyw mewn perthynas â mewnforio neu allforio cemegion peryglus, yn enwedig defnyddio labeli priodol, yn cynnwys cyfarwyddiadau ar drin yn ddiogel, a hysbysu defnyddwyr am unrhyw gyfyngiadau neu waharddiadau perthnasol (Confensiwn PIC (Rotterdam)).

ar sail Gwybodaeth ar gyfer Cemegion a Phlaleiddiaid Peryglus Penodol mewn Masnach Ryngwladol (UNEP/FAO) (Confensiwn PIC) Rotterdam, 10 Medi 1998, a'i 3 Phrotocol cysylltiedig.		
Os i chi ateb "Ydw" i gwestiwn [Rhif] uchod, rhowch grynodeb o'r camau rydych chi'n eu cymryd.	Testun, hyd at 300 gair	Gall y prynwr beidio â'ch dewis i dendro oni bai eich bod chi'n gallu dangos prosesau digonol ar gyfer sicrhau bod aelodau o'ch cadwyn gyflenwi (fel y'i diffinnir uchod) yn cydymffurfio â chyfraith gymdeithasol, amgylcheddol a llafur yn y DU, neu yn yr awdurdodaeth lle maent yn gweithredu. Sut bynnag, rhaid i aelodau'ch cadwyn gyflenwi gydymffurfio yn y man lleiaf â'r safonau rhyngwladol a nodir uchod. Gallai mesurau gynnwys, er enghraifft – • Gwirio a oes gan eich cyflenwyr neu'ch is-gontractwyr bolisïau yn ymdrin â'r materion uchod • Gwirio eu bod yn cymryd camau rhesymol ac yn defnyddio adnoddau rhesymol i orfodi eu polisïau • Gwirio a gawsant eu dyfarnu erioed o weithredu'n groes i gyfreithiau amgylcheddol, cymdeithasol neu lafur naill ai yn eu hawdurdodaeth nhw'u hunain, unrhyw awdurdodaeth arall lle maent yn gweithredu, neu'r safonau rhyngwladol uchod • Os dyfarnwyd eu bod wedi gweithredu'n groes, gwiriwch pa fesurau maent wedi'u rhoi ar waith i unioni hynny (yn cynnwys canfod dioddefwyr a'u digolledu lle bo'n briodol) a chymryd camau i'w atal rhag digwydd eto.
Yn y tair blynedd diwethaf, a ddyfarnwyd eich bod chi neu unrhyw aelod o'ch cadwyn gyflenwi wedi gweithredu'n groes i unrhyw	Do/Naddo	Mae cael eich dyfarnu i fod wedi gweithredu'n groes yn golygu bod penderfyniad wedi'i wneud gan lys, tribiwnlys neu awdurdod gweinyddol cymwys.

ddeddfwriaeth gymdeithasol, amgylcheddol neu lafur neu ddeddfwriaeth gymaradwy mewn unrhyw awdurdodaeth arall ar draws y byd?		
Os i chi ateb "Do" i gwestiwn [Rhif] uchod, rhowch amlinelliad byr o natur y dyfarniad ac unrhyw gosb a roddwyd, a'r camau gweithredu rydych chi, neu'r aelod o'ch cadwyn gyflenwi, wedi'u cymryd i atal hyn rhag digwydd eto.	Testun, hyd at 300 gair	Os dyfarnwyd eich bod chi neu aelod o'ch cadwyn gyflenwi wedi gweithredu'n groes i unrhyw ddeddfwriaeth gymdeithasol, amgylcheddol neu lafur, ni all y prynwr eich dewis i dendro oni bai eich bod chi'n gallu darparu tystiolaeth gadarn a chredadwy bod mesurau wedi'u cymryd i atal hyn rhag digwydd eto.

Nodyn: os gwelir bod unrhyw un o'ch atebion i'r cwestiynau uchod yn anghywir neu'n gamarweiniol yna, heb ymrwymiad i unrhyw hawl neu rwymedi arall sydd gan y prynwr, gall y prynwr benderfynu gwahardd eich tendr neu, os yw'n contract wedi'i ddyfarnu, canslo'r contract heb iawndal neu osod cosbau yn unol â'r darpariaethau yn y contract. Ymhellach, nodwch os yw'ch tendr yn afreolaidd o isel oherwydd diffyg cydymffurfiaeth â chyfraith gymdeithasol, amgylcheddol neu lafur, rhaid i'r prynwr ddiarddel eich tendr."